

CANLLAWIAU CAIS AM SWYDD

JOB APPLICATION GUIDANCE




*Gwneud cais am swydd
Deall y broses
Manteision o weithio gyda ni*

*Applying for a job
Understanding the process
Benefits of working with us*



" Mae Cyngor Ceredigion yn darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n cynnig gwerth am arian ac yn cynnal economi gref tra'n hyrwyddo lles ein pobl a'n cymunedau"

"Ceredigion Council delivers value for money public services that support a strong economy while promoting wellbeing in our people and our communities"





CYNNWYS CONTENTS

	Tudalen		Page
Cyflwyniad	4	Introduction	4
Y ffurflen gais a'r broses ddethol	6	The application form and the selection process	6
→ Y Ffurflen Gais	6	→ The Application Form	6
→ Treuliau i Ymgeiswyr	7	→ Expenses for Candidates	7
→ Dychwelyd Ceisiadau	7	→ Returning Applications	7
→ Y Broses Benodi	8	→ Appointment Process	8
→ Sgiliau Ieithyddol	8	→ Language Skills	8
→ Y Symbol Anabledd	9	→ The Disability Symbol	9
→ Cyfle Cyfartal	10	→ Equality of Opportunity	10
→ Deddf Lloches a Mewnfudo 1996	10	→ Asylum and Immigration Act 1996	10
→ Cyngor Addysg Cyffredinol Cymru	11	→ General Teaching Council for Wales	11
→ Tystlythyrau	11	→ References	11
→ Delio ag Ymgeiswyr – Safonau Gwasanaeth	11	→ Dealing with Applicants/Candidates – Service Standards	11
Prif Amodau a Manteision	14	Main Conditions and Benefits	14
→ Tymhorau a Gwyliau Ysgolion	14	→ School Terms and Holidays	14
→ Presenoldeb yn y Gwaith	14	→ Attendance at Work	14
→ Lwfans Defnyddiwr Car	14	→ Car User Allowance	14
→ Talebau Gofal Plant	14	→ Childcare Vouchers	14
→ Cod Ymddygiad	14	→ Code of Conduct	14
→ Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith	14	→ Health and Safety at Work	14
→ Oriau Gwaith	14	→ Hours of Work	14
→ Rhannu Swydd	15	→ Job Share	15
→ Lleoliad	15	→ Location	15
→ Darpariaethau Mamolaeth	15	→ Maternity Provisions	15
→ Gwyliau Eraill	15	→ Other Leave	15
→ Pensiwn	15	→ Pension	15
→ Archwiliadau Cyn Cyflogi	16	→ Pre-employment Checks	16
- Tystlythyrau Cyflogaeth	16	- Employment References	16
- Prawf o Gymwysterau	16	- Proof of Qualifications	16
- Prawf Adnabod	16	- Proof of Identification	16
- Archwiliadau Meddygol	16	- Medical Checks	16
- Datgeliadau Cofnodion Troseddol	16	- Criminal Records Disclosures	16
- Beth yw Datgeliad?	16	- What is a Disclosure	16
→ Perthnasau	17	→ Relations	17
→ Cyflog	17	→ Salary	17
→ Polisi Dim Ysmygu	17	→ No Smoking Policy	17
→ Undebau Llafur	17	→ Trade Unions	17
→ Hyfforddiant a Datblygiad	17	→ Training and Development	17
→ Cynllun Iaith Gymraeg	17	→ Welsh Language Scheme	17
→ Cydbwysedd Bywyd a Gwaith	18	→ Work Life Balance	18
→ Gwybodaeth Bellach ac Ymholiadau	18	→ Further Information and Queries	18



"Rydym wedi ymrwymo i sicrhau triniaeth deg a chyfle cyfartal i'n holl weithwyr"

"We are committed to ensure fair, equal treatment and opportunity to all employees"



CYFLWYNIAD INTRODUCTION

CEREDIGION

Gall Ceredigion eich ysbrydoli gyda'i chymysgedd diguro o olygfeydd godidog, arfordir dramatig a chymunedau trefi marchnad, glan môr a Phrifysgol llawn bwrlwm. Rydym yn gobeithio y cewch chi'ch ysbrydoli i ymuno â ni i wasanaethu poblogaeth gynyddol y sir. Beth bynnag fo'ch maes, ymunwch â gweithle cyffrous a gwerth chweil o 3,800, sy'n ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf yng Ngheredigion.

CYNGOR SIR CEREDIGION

Mae cyfrifoldebau amrywiol y Cyngor yn cynnwys iechyd yr amgylchedd, tai, cynllunio, priffyrdd, addysg, llyfrgelloedd, cyfleusterau hamdden, gwasanaethau cymdeithasol, trethi lleol a budd-daliadau, twristiaeth a datblygu economaidd.

GWASANAETHAU DYSGU

Mae Gwasanaethau Dysgu yn cyflogi tua 2,000 o bobl, a dyma adran fwyaf y Cyngor Sir. Lleolir pencadlys y Gwasanaeth yng Nghanolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth ac mae'n darparu man cyswllt i rieni, disgyblion, myfyrwyr, aelodau etholedig, staff a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Datganiad cenhadaeth y Gwasanaeth yw,

'darparu a hyrwyddo gwybodaeth, sgiliau, cymwyseddau, profiadau, cymwysterau ac agweddau er mwyn sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion yng Ngheredigion yn cyflawni eu potensial fel unigolion dwyieithog ac fel aelodau o'u cymunedau lleol a byd-eang trwy gydol eu bywydau.'

CEREDIGION

Ceredigion is truly an inspirational part of Wales, offering an enviable mix of breath-taking scenery, dramatic coastline and vibrant communities of seaside, market and University towns. We hope you'll be equally inspired to join us in serving the growing population of Ceredigion, whatever your vocation Ceredigion will provide a stimulating and rewarding environment as part of a 3,800 strong workforce committed to the provision of quality services within the County.

CEREDIGION COUNTY COUNCIL

The Council's diverse range of responsibilities include environmental health, housing, planning, highways, education, libraries, recreational facilities, social services, local taxation and benefits, tourism and economic development.

LEARNING SERVICES

Learning Services employs in the region of 2,000 people and is the largest of the County's departments. The administrative headquarters of the service is situated at Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, and provides a focal point of contact for parents, pupils, students, elected members, staff and the general public.

The mission statement for the service is,

'to provide and promote knowledge, skills, competencies, experiences, qualifications and attitudes to ensure that the children, young people and adults in Ceredigion fulfil their potential as bilingual individuals and as members of their local and global communities throughout their lives.'



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Y FFURFLEN GAIS A'R BROSES DDETHOL THE APPLICATION FORM AND SELECTION PROCESS

*'cwbllhewch eich ffurflen mor llawn a chryno ag y gallwch ...'
'complete your form as fully and concisely as you can...'*

Llenwi ffurflen gais yw'r cam cyntaf yn y broses recriwtio a all arwain at gyfweiliad a'r posibilrwydd o gael cynnig swydd. Mae'n hollbwysig, felly, eich bod yn llenwi POB adran o'r ffurflen gais yn glir ac mor drwyadl ag y bo modd. Mae'r nodiadau canlynol yn esbonio'r ffurflen gais ac yn darparu rhai awgrymiadau defnyddiol ar gyfer ei chwblhau.

Completing an application form is the first step in the recruitment process which may lead to an interview and the possibility of a job offer. It is, therefore, most important that you complete ALL sections of the application form clearly and as fully as possible. The following notes explain the application form and provide some useful hints on its completion.

Gellir cwblhau ffurflenni cais ar-lein drwy ddilyn y linciau perthnasol. Os hoffech, fodd bynnag, dderbyn y ffurflen gais a'r dogfennau ategol mewn fformat gwahanol, cysylltwch ag Adain Adnoddau Dynol Gwasanaethau Dysgu ar 01970 633684 neu drwy e-bost ar swyddiaddysg@ceredigion.gov.uk.

Application forms can be completed on-line using the relevant links however if you require the application form and accompanying documents in a different format please contact the Learning Services Human Resources section on 01970 633684 or via e-mail at educationjobs@ceredigion.gov.uk.

Y FFURFLEN GAIS

Ni dderbynnir *curriculum vitae* fel gwybodaeth atodol neu fel dewis arall i gwblhau ffurflen gais.

Fodd bynnag, gellir gwneud eithriad i'r rheol hon yn achos ymgeiswyr sydd ag anabledd os yw eu hanabledd yn golygu nad ydynt yn medru cwblhau'r ffurflen gais safonol. Mewn achosion o'r fath, dylid cysylltu â 01970 633684.

Dylai ffurflen gais bapur cael ei llenwi'n glir mewn INC DU neu deip.

Y ffurflen gais yw'r unig wybodaeth sydd gan y panel penodi i benderfynu pa ymgeisydd i'w ddewis ar gyfer cyfweiliad. Mae'n bwysig eich bod yn llenwi pob adran o'r ffurflen mor drwyadl a chryno ag y gallwch, yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gennym i chi ynglŷn â'r swydd. Mae hefyd yn bwysig eich bod yn darllen yr holl wybodaeth a

THE APPLICATION FORM

Curriculum vitae will not be accepted as supplementary information or as an alternative to completion of the application form.

An exception can be made however in the case of applicants with a disability if their disability is such that they are not able to complete the standard application form. In such cases, please contact 01970 633684.

If completing a paper application form this should be completed clearly in BLACK INK or type

The application form is the only information the appointing panel have on a candidate when deciding who to select for interview. It is important that you complete all sections of the form as fully and concisely as you can, based on the information we have provided to you about the post. It is also important that you read all the information enclosed

amgaeir gyda'r ffurflen gais ac yn ystyried pam eich bod eisiau'r swydd hon, a pha brofiad a sgiliau sydd gennych i'w cynnig, cyn llenwi'r ffurflen gais.

Mae'r swydd ddisgrifiad a'r fanyleb person yn rhestru'r prif ddyletswyddau a chymwysterau perthnasol, profiad a chymwyseddau personol sydd eu hangen ar gyfer ymgymryd â'r swydd. Mae'n hanfodol eich bod yn dangos ar eich ffurflen gais sut yr ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol a dymunol a nodir yn y fanyleb personol, gan roi sylw arbennig i'r rhai sy'n cael eu hasesu yn sgil y ffurflen gais.

Yn eich cais, dylech roi sylw i bob pwynt yn y fanyleb person gan roi enghreifftiau o sut rydych wedi defnyddio'ch sgiliau, profiad a chymwyseddau personol yn ystod eich hanes cyflogaeth. Er enghraifft, os yw'r fanyleb person yn gofyn am *'brofiad o weithio yn y cyfnod sylfaen'*, yna nid yw ysgrifennu *'Mae gennyf brofiad o weithio yn y cyfnod sylfaen'* yn ddigonol. Bydd angen i chi roi esboniad fwy manwl o'ch profiad penodol a'r hyn roedd yn ei olygu, er enghraifft *'roeddwn yn gweithio fel athro yn y cyfnod sylfaen lle bûm yn paratoi gweithgareddau ymestynnol a diddorol ar gyfer ystod o alluoedd o fewn dosbarth o'r fath.'*

Bydd cael eich gwahodd am gyfweiliad yn dibynnu a yw'r wybodaeth yr ydych wedi ysgrifennu yn eich cais yn bodloni gofynion y fanyleb personol. Dim ond yr ymgeiswyr hynny sy'n tystio eu bod, o leiaf, yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol fydd yn cael eu cynnwys ar y rhestr fer.

Os nad ydych wedi bod mewn gwaith cyflogedig neu heb weithio ers peth amser, rhowch wybodaeth am y profiad rydych wedi'i gael mewn ffyrdd eraill. Gallai hyn gynnwys profiad gwaith, gwaith gwirfoddol, diddordebau hamdden neu brofiad o fewn y cartref a'r teulu.

Mae'r ffurflen gais yn cynnwys Ffurflen Monitro Amrywiaeth, sy'n galluogi'r Awdurdod i fonitro effeithiolrwydd ei bolisiau, a hefyd er mwyn cydymffurfio â gofynion ein Polisi Dethol a Recriwtio, gan warantu cyfweiliadau i ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol.

with the application form and think about why you want this job and what experience and skills you have to offer before actually completing the application form.

The job description and person specification list the main duties and relevant qualifications, experience and personal competencies required for undertaking the post. It is crucial that you illustrate in your application form how you are able to satisfy each of the essential and desirable criteria stated in the person specification, with particular attention to those being assessed from the application form.

In your application you should address each point of the person specification giving examples of how you have applied your skills, experience and personal competencies in your employment history. For example, if the person specification asks for *'experience of working in the foundation phase'* then writing *'I have experience of working in the foundation phase'* is not sufficient. You will need to explain in more detail about your specific experience and what was involved, for example *'I worked as a teacher in the foundation phase where I prepared interesting and challenging activities for the wide-ranging abilities found in a class of its kind'*.

Being invited for interview will depend on whether the information you have written in your application meet the requirements of the person specification. Only those applicants who evidence that they meet all the essential criteria as a minimum will be shortlisted.

If you have never been in paid employment or have not been for some time, please give us information of experience you have gained in other ways. This might include work experience, voluntary work, leisure interests or through domestic and family experience.

The application form includes a Diversity Monitoring Form, which enables the Authority to monitor the effectiveness of its policies and also to comply with the requirements of our Selection and Recruitment Policy in guaranteeing interviews for Disabled applicants that meet the essential criteria.

Mae'r holl swyddi dysgu o fewn yr Awdurdod wedi'u heithrio o Ddeddf Ailsefydlu Troseddswyr 1974 o ganlyniad i natur y gwaith dan sylw. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ar gyfer y swyddi hyn ymgymryd â gwiriad DBS (CRB gynt) Ehangach o gofnodion troseddol, a rhaid iddynt ddatgelu pob euogfarn, rhybudd, cerydd a rhybudd terfynol ar eu cofnod troseddol, gan gynnwys unrhyw rai sydd 'wedi darford' dan ddarpariaeth y Ddeddf.

Rhaid i chi hefyd sicrhau eich bod yn datgan ar eich ffurflen gais os ydych yn perthyn i unrhyw Gynghorydd neu uwch swyddog (Graddfa 9 neu uwch) o fewn yr Awdurdod hwn. Bydd methu â gwneud hynny'n eich gwahardd rhag cael eich eich penodi.

All teaching posts within the Authority are exempt from the Rehabilitation of Offenders Act 1974 due to the nature of the work involved. Applicants for these posts will be required to undertake an Enhanced DBS (formerly CRB) check of criminal records and must disclose all convictions, cautions, reprimands and final warnings on their criminal record, including any that may be regarded as 'spent' under the provision of the Act.

You must also ensure that you declare on your application form if you are related to any Councillor or senior officer (Scale 9 or above) of this Authority. Failure to do so will disqualify you from appointment.

TREULIAU I YMGEISWYR

Ni fydd unrhyw dreuliau'n cael eu rhoi i ymgeiswyr mewnol neu allanol am fynychu'r cyfweiliad.

EXPENSES FOR CANDIDATES

No expenses will be granted to internal or external candidates for attending the interview.

DYCHWELYD CEISIADAU

Rhaid cwblhau ceisiadau'n llawn a'u hanfon atom erbyn y dyddiad cau a nodir. (Rhaid i ffurflenni cais papur gael eu llofnodi a'u dychwelyd i'r cyfeiriad a nodir ar y ffurflen gais.) Ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Os ceir problem i gwrdd â'r dyddiad cau, cysylltwch ag Adain Adnoddau Dynol Gwasanaethau Dysgu ar 10970 633680.

RETURNING APPLICATIONS

Applications must be completed fully and returned by the stated closing date. (Paper-based application forms must be signed and returned to the address stated on the application form.) Late applications will not be considered unless there are exceptional circumstances. If there is an instance where there is a problem meeting the deadline please contact the Learning Services' HR Section on 01970 633680.

Bydd pob cais a gwblhawyd ar-lein yn cael derbynneb awtomatig drwy e-bost.

All applications completed on-line will receive an automatic receipt via email.

Y BROSES BENODI

Unwaith bod y rhestr fer ar gyfer y swydd wedi'i llunio, bydd pob ymgeisydd yn cael ei hysbysu o ganlyniad y broses ddethol drwy e-bost (yn ysgrifenedig ar gyfer y rhai sy'n cyflwyno cais ar bapur). Os ydych ar y rhestr fer, byddwch yn derbyn llythyr yn gosod y dyddiad, yr amser a'r dulliau dethol ar gyfer y penodiad.

APPOINTMENTS PROCESS

Once the shortlisting for the position has taken place, all interviewed candidates will be notified via e-mail (in writing for those applying via paper application) of the outcome of the selection process. If shortlisted, you will receive a letter detailing the date, time and selection methods for the appointment.

Yn dilyn y cyfweiliad, bydd pob ymgeisydd yn cael gwybod canlyniad y broses gyfweld. Ar ôl i'r ymgeisydd llwyddiannus dderbyn y swydd ar lafar, bydd yr holl ymgeiswyr eraill yn cael gwybod y canlyniad dros y ffôn, trwy e-bost neu lythyr.

Following the interview, all interviewed candidates are notified of the outcome of the interview process. Following verbal acceptance from the successful candidate, all other interviewed candidates will be informed of the outcome by telephone, e-mail or mail.

Os hoffech adborth o'r cyfweiliad, cewch enw a rhif cyswllt pan fyddwch yn cael gwybod am ganlyniad y broses recriwtio.

Should you require feedback from the interview, a contact name and number will be supplied when you are informed of the outcome of the recruitment process.

SGILIAU IEITHYDDOL

Mae'r Cyngor yn asesu sgiliau ieithyddol ymgeiswyr trwy ddefnyddio'r fframwaith ALTE canlynol:

Lefel	Gwrando/Siarad
1	• Medru ynganu enwau llefydd ac enwau personol yn gywir. • Medru cyfarch cwsmeriaid mewn derbynfa neu dros y ffôn. • Medru agor a chloi sgwrs.
2	• Medru deall hanfod sgwrs. • Medru derbyn a deall negeseuon syml ar batrymau arferol, e.e. amser a lleoliad cyfarfod, cais i gael siarad â rhywun. • Medru cyfleu gwybodaeth elfennol a chyfarwyddiadau syml. • Medru agor a chau sgwrs a chyfarfod yn ddwyieithog.
3	• Medru deall a chymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgrysiâu arferol o ddydd i ddydd yn y swyddfa. • Medru cynnig cyngor i'r cyhoedd ar faterion cyffredinol mewn perthynas â'r swydd, er yn gorfod troi i Saesneg ar gyfer termau technegol neu arbenigol. • Medru cyfrannu i gyfarfod neu gyflwyniad ar faterion cyffredinol mewn perthynas â'r swydd, er yn gorfod troi i Saesneg ar gyfer termau technegol neu arbenigol.
4	• Medru cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol yng nghyd-destun y pwnc gwaith. • Medru deall gwahaniaethau cywair a thafodiaith. • Medru dadlau o blaid ac yn erbyn achos penodol. • Medru cadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r Gadair yn hyderus. • Medru rhoi cyflwyniadau'n rhugl a hyderus yng nghyd-destun y pwnc gwaith.
5	• Medru cyfrannu'n rhugl a hyderus ym mhob agwedd o'r gwaith beunyddiol, gan gynnwys trafod a chynghori ar faterion technegol, arbenigol neu sensitif.

LANGUAGE SKILLS

The Council assess language skills of candidates using the following ALTE framework.

Level	Listening/Speaking
1	• Can pronounce place names and personal names correctly. • Can greet customers on a reception desk or on the telephone. • Can begin and end a conversation.
2	• Can understand the essence of a conversation. • Can receive and understand simple messages following normal patterns, such as time and place of meeting, request to talk to someone. • Can pass on basic information and simple instructions. • Can begin and end conversations and meetings bilingually.
3	• Can understand and participate in most day-to-day non-technical conversations in the office. • Can advise the public on general matters within own area of work, but must turn to English for technical or specialist terms. • Can contribute to meetings or presentations within own area of work, but must turn to English for technical or specialist terms.
4	• Can contribute effectively to internal and external meetings in the context of the job area. • Can understand differences in language and dialect. • Can argue for or against a specific case. • Can chair meetings and answer questions confidently from the Chair. • Can give presentations fluently and confidently in the context of the job area.
5	• Can contribute fluently and confidently in relation to all aspects of day-to-day work, including discussing and advising upon technical, specialist or sensitive matters.

Lefel	Darllen
1	Medru deall adroddiadau byr ar faterion cyfarwydd pan maent wedi'u cyfleu mewn iaith syml, megis arwyddion elfennol, cyfarwyddiadau syml, a chynnwys agenda.
2	Medru deall y rhan fwyaf o adroddiadau byrion a chyfarwyddiadau cyfarwydd o fewn maes ei (h)arbenigedd, cyn belled â bod digon o amser ar gael.
3	Medru deall y rhan fwyaf o'r adroddiadau, dogfennau a gohebiaeth y byddai disgwyl iddo/iddi eu trafod yng nghwrs arferol ei (g)waith.
4	Medru deall gohebiaeth ac adroddiadau sydd wedi'u mynegi mewn iaith safonol.
5	Medru deall adroddiadau, dogfennau ac erthyglau y byddai ef/hi'n debygol o'u darllen yng nghwrs arferol ei (g)waith, gan gynnwys cysyniadau cymhleth a fynegir mewn iaith astrus.

Level	Reading
1	Can understand short reports on familiar matters, if these are expressed in simple language, such as elementary signs, simple instructions and agenda contents.
2	Can understand most short reports and familiar instructions within his/her own area of expertise, provided enough time is given.
3	Can understand most reports, documents and correspondence he/she is likely to encounter during his/her work.
4	Can understand correspondence and reports expressed in standard language.
5	Can understand reports, documents and articles he/she is likely to read during his/her work, including complicated concepts expressed in abstruse terms.

Lefel	Ysgrifennu
1	- Medru ysgrifennu enwau personol, enwau llefydd, teitlau swyddi ac enwau adrannau'r Cyngor. - Medru ysgrifennu cais syml i gydweithiwr, e.e. "hwn a hon wedi galw, allwch chi alw nhw nôl?"
2	Medru llunio neges fer syml ar bapur neu e-bost i gydweithiwr o fewn y Cyngor neu gyswllt cyfarwydd y tu allan i'r Cyngor.
3	Medru llunio negeseuon ac adroddiadau anffurfiol at ddefnydd mewnol.
4	Medru llunio gohebiaeth fusnes, adroddiadau byr, negeseuon e-bost a deunydd gwybodaeth gyda chymorth golygyddol.
5	- Medru llunio gohebiaeth fusnes, adroddiadau byr, negeseuon e-bost a deunydd gwybodaeth i safon dderbyniol gan ddefnyddio cymhorthion iaith. - Medru llunio nodiadau manwl tra'n cymryd rhan lawn mewn cyfarfod.

Level	Writing
1	- Can write personal names, place names, job titles and names of Council departments. - Can write a simple request to a colleague, such as "A has called, can you call back?"
2	Can write a short simple message on paper or by e-mail to a colleague within the Council or a known external contact.
3	Can write informal messages and reports for internal use.
4	Can write business correspondence, short reports, e-mail messages and information literature with editorial assistance.
5	- Can write business correspondence, short reports, e-mail messages and information literature to an acceptable standard with the assistance of language tools. - Can write detailed notes in a meeting whilst contributing fully.

Y SYMBOL ANABLEDD

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith wedi dyfarnu'r Symbol Anabledd i'r Awdurdod fel cydnabyddiaeth o'i ymrwymiad i gyflogi pobl anabl.



Mae'r Symbol yn cadarnhau, trwy 5 ymrwymiad penodol, fod y Cyngor yn cynnig pob cyfle posibl i staff ag anableddau sef:

1. Cyfweld â phob ymgeisydd anabl sy'n cwrdd â meini prawf lleiaf swydd wag, ac ystyried pob cais ar sail gallu.
2. Sicrhau bod yna fecanwaith mewn lle i drafod gyda gweithwyr anabl ar unrhyw adeg, ond o leiaf unwaith y flwyddyn, beth ellir ei wneud i sicrhau eu bod yn datblygu ac yn defnyddio'u galluoedd.
3. Gwneud pob ymdrech i sicrhau fod gweithwyr, pan ddônt yn anabl, yn aros yn eu swydd.
4. Cymryd camau i sicrhau bod gweithwyr allweddol yn datblygu'r lefel briodol o ymwybyddiaeth anabledd sydd ei hangen i weithredu'n hymrwymiaadau.
5. Adolygu'r pum ymrwymiad a'r hyn a gyflawnwyd bob blwyddyn, cynllunio ffyrdd o'u gwella, a gadael i weithwyr a Chanolfan Byd Gwaith wybod am unrhyw gynnydd a chynlluniau i'r dyfodol.

CYFLE CYFARTAL

Fel y cyflogwr mwyaf yng Ngheredigion, mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod ein hased mwyaf - y gweithlu, yn cynrychioli amrywiaeth y Sir. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau triniaeth deg a chyfle cyfartal i bob gweithiwr.

Rydym yn sicrhau bod unigolion yn cael eu recriwtio, eu dethol, eu datblygu, eu dyrchafu a'u trin yn ôl meini prawf gwrthrychol, gan ystyried profiad perthnasol, potensial, sgiliau a gallu.

Yn benodol, ni fydd unrhyw ymgeisydd na gweithiwr dan anfantais o ganlyniad i amodau neu ofnyion nad ydynt yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r swydd, neu sy'n gyfystyr â gwahaniaethu anuniongyrchol annheg.

Bydd gweithdrefnau cyfweld a phenodi fel y cyfryw yn lleihau unrhyw anfantais a brofir gan bobl ag anabledd, aelodau o grwpiau lleiafrifol ethnig neu bobl o'r naill ryw neu'r llall. Yn unol â hynny, (ac eithrio'r hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer penodiadau

DISABILITY SYMBOL

The Council has been awarded the Disability Symbol from the JobCentre Plus in recognition of its commitment to the employment of disabled people.



The Symbol ensures through 5 specific commitments, that the Council offers staff with disabilities every possible opportunity:

1. To interview all applicants with a disability who meet the minimum criteria for a job vacancy and consider them on their abilities.
2. To ensure there is a mechanism in place to discuss, at any time, but at least once a year, with disabled employees, what can be done to make sure they can develop and use their abilities.
3. To make every effort when employees become disabled to make sure they stay in employment.
4. To take action to ensure that key employees develop the appropriate level of disability awareness needed to make our commitments work.
5. Each year, to review the five commitments and what has been achieved, to plan ways to improve on them and let employees and JobCentre Plus know about progress and future plans.

EQUALITY OF OPPORTUNITY

As the largest employer in Ceredigion, we have a responsibility of ensuring that our greatest asset – the workforce, adequately represents the diversity of the County. We are committed to ensure fair, equal treatment and opportunity to all employees.

We ensure that individuals are recruited, selected, developed, promoted and treated on objective criteria, having regard to relevant experience, potential, skills and abilities.

In particular, no applicant or employee will be placed at a disadvantage by requirements or conditions which are not necessary to the performance of the job or which constitutes indirect unfair discrimination.

Interviewing and appointment procedures shall be such as to minimise any disadvantage experienced by people with a disability, members of ethnic minority groups or of either sex. Accordingly, (except in so far as is necessary for particular appointments,

penodol, ac a ganiateir dan y ddeddfwriaeth briodol) ni fydd cwestiynau'n cael eu gofyn yn y cyfweiliad all ymddangos yn wahaniaethol (e.e. cwestiynau sy'n ymwneud â phriodas, cynlluniau teuluol, neu grefydd).

and as allowed for under the appropriate legislation) questions will not be asked at interview which may be prima facie discriminatory (e.g. questions relating to marriage, family plans or religion).

DEDDF LLOCHES A MEWNFUDO 1996

Mae'r ddeddf hon yn gwneud hi'n drosedd penodi staff nad oes ganddynt yr hawl i fyw a gweithio yn y Deyrnas Unedig. Rhaid i'r Cyngor felly, gynnal gwiriadau sylfaenol ar bob ymgeisydd a benodir a bydd angen un o'r dogfennau tystiolaeth canlynol:

- * dogfen a gyhoeddwyd gan gyflogwr blaenorol, Cyllid y Wlad, yr Asiantaeth Budd-daliadau, yr Asiantaeth Cyfraniadau neu'r Gwasanaeth Cyflogaeth (neu gyrff sy'n cyfateb iddynt yng Ngogledd Iwerddon) sy'n datgan rhif Yswiriant Gwladol y person dan sylw.
- * pasbort sy'n disgrifio'r deiliad fel dinesydd Prydeinig neu un sydd â'r hawl i fyw yn y DU, neu hawl i gael ail-fynediad i'r DU
- * pasbort sy'n cynnwys Tystysgrif Hawl a gyhoeddwyd gan, neu ar ran Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n ardystio bod gan y deiliad yr hawl i breswyllo yn y DU
- * tystysgrif cofrestru neu frodori yn Ddinesydd Prydeinig
- * tystysgrif Geni DU neu Weriniaeth Iwerddon
- * pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol a gyhoeddwyd gan wladwriaeth sy'n rhan o'r Cytundeb Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEAA) ac sy'n disgrifio'r deiliad fel gwladolyn o'r wladwriaeth honno.
- * pasbort neu ddogfen deithio arall a ardystiwyd i ddangos bod y person a enwir wedi'i eithrio o reolaeth mewnfudo, wedi cael caniatâd penagored i ddod i mewn neu i aros yn y DU, neu heb unrhyw gyfyngiad ar ei arhosiad; neu lythyr a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau fod gan y person a enwir statws o'r fath.
- * trwydded breswylfa DU a roir i wladolyn gwladwriaeth sy'n rhan o'r EEAA.
- * pasbort neu ddogfen deithio arall a ardystiwyd i ddangos bod gan y deiliad hawl gyfredol i breswyllo yn y DU fel aelod o deulu gwladolyn a enwir o Wladwriaeth sy'n rhan o'r EEAA ac yn byw yn y DU.

ASYLUM AND IMMIGRATION ACT 1996

This act makes it a criminal offence to appoint staff who do not have a right to live and work in the United Kingdom. The Council is therefore obliged to carry out basic checks on all appointed candidates and will require one of the following documentary evidence:

- * a document issued by a previous employer, the Inland Revenue, the Benefits Agency, the Contributions Agency or the Employment Service (or their Northern Ireland equivalents) which states the National Insurance number of the person concerned.
- * a passport describing the holder as a British Citizen or as having the right of abode in, or entitlement to re admission to the UK
- * a passport containing a Certificate of Entitlement issued by or on behalf of the Government of United Kingdom certifying that the holder has the right of abode in the UK
- * a certificate of registration or naturalisation as a British Citizen
- * a UK or Republic of Ireland Birth Certificate
- * a passport or national identity card issued by a state which is a party to the European Economic Area Agreement (EEAA) and which describes the holder as a national of that state.
- * a passport or other travel document endorsed to show that the person named is exempt from immigration control, has indefinite leave to enter or remain in the UK or has no time limit on his or her stay; or a letter issued by the Home Office confirming that the person named has such status.
- * a UK residence permit issued to a national of a state which is a party to the EEAA.
- * a passport or other travel document endorsed to show that the holder has a current right of residence in the UK as the family member of a named national of a State which is party to the EEAA and who is resident in the UK.

